3. The latest version of the Executive Board Forward Work Programme 2020/21

## Education & Children Scrutiny Committee – Forward Work Programme 2020/21

23 <sup>rd</sup> November 2020	6 <sup>th</sup> January 2021	28 <sup>th</sup> January 2021	17 <sup>th</sup> March 2021	21 <sup>st</sup> April 2021
Covid-19 Position Statement including Support for Learning and Learners since March 2020	<del>Education Support for Vulnerable Learners</del>	Revenue Budget Consultation 2021/22 – 2023/24	WESP	Curriculum Development
Education Strategy 2020-2030	Staff and Pupil Wellbeing and Mental Health	<del>Proposal to relocate Ysgol Dewi Sant (tbc)</del>	<del>Department Self-evaluation and 10 Year Strategy</del>	Scrutiny School Visits Framework
Proposal to shorten the internal democratic process for approving statutory consultations	<del>Task &amp; Finish Group Final Report – ALN Funding</del>	<del>Corporate Strategy</del>	Proposal to relocate Ysgol Heol Goffa and to increase its capacity (Stage 3)	ALN Transformation Action Plan
Education & Children Scrutiny Committee Annual Report 2019/20	Financial Challenges Facing Schools – Including Analysis of Grants and ALN Funding	Estyn report and Internal Review on Covid Response/ Education Support for Vulnerable Learners	<del>ALN Transformation Action Plan</del>	Departmental Business Plans
Education & Children Scrutiny FWP 2020/21	<del>Proposal to change the nature of provision at approx. 4 schools (Stage 1)</del>	<del>Corporate/Departmental Business Plans</del>	<del>Departmental Business Plans</del>	
Proposal to relocate Ysgol Heol Goffa and to increase its capacity (Stage 2)		MEP Proposal – Model School		
Proposal to discontinue Ysgol Gynradd Blaenau and to increase the capacity and change the nature of provision at Ysgol Gynradd Llandybie (Stage 1)		MEP Proposal – Ysgol y Felin		
<del>Proposal to discontinue Ysgol Rhydygors (Stage 1)</del>		Task & Finish Group Final Report – ALN Funding		
<del>Proposal to change the age range at Ysgol Swiss Valley (Stage 1)</del>				
Proposal to discontinue Ysgol Gynradd Mynyddygarreg (Stage 1)				

For information/update reports circulated to the Committee via e-mail throughout the year:-

- Budget Monitoring 2020/21
- Annual Performance Report (Half Yearly)

**Additional reports requested by the Committee:-**

- Staff health & wellbeing and mental health
- Financial challenges facing schools and ALN
- Estyn report and Internal Review report
- Effect on NEETS (European funding)
- Vulnerable learners

**Reports to be allocated in the FWP:-**

- Tackling NEETS (& impact of possible loss of European funding)

**Workshops to be arranged during the year:-**

- Review of the Modernising Education Programme

## Education & Children Scrutiny Committee – Forward Work Programme 2021/22 (May to December)

25 <sup>th</sup> May 2021	8 <sup>th</sup> July 2021	6 <sup>th</sup> October 2021	30 <sup>th</sup> November 2021	23 <sup>rd</sup> December 2021

For information/update reports circulated to the Committee via e-mail throughout the year:-

- Budget Monitoring 2021/22
- Annual Performance Report (Half Yearly)

**Additional reports requested by the Committee:-**

**Reports to be allocated in the FWP:-**

**Workshops to be arranged during the year:-**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwiadol



**EXECUTIVE BOARD FORWARD WORK PROGRAMME 20/21**  
**as at 18/11/2020** (For the period November 20 – Oct 21)

**Introduction**

This plan is published to encourage and enable greater understanding between the Executive, all Councillors, the public and other stakeholders. It assists the Scrutiny Committees in planning their contribution to policy development and holding the executive to account.

The plan gives the public and stakeholders a chance to see the forthcoming major decisions to be made by the Executive Board over the next 12 months. It is reviewed and published quarterly to take account of changes and additional key decisions.

WORKING DRAFT

**EXECUTIVE BOARD FORWARD WORK PROGRAMME 20/21**  
as at 18/11/2020 (For the period November 20 – Oct 21)

<b>EDUCATION &amp; CHILDREN</b>				
<b>Subject area and brief description of nature of report</b>	<b>Responsible Officer</b>	<b>Executive Portfolio</b>	<b>Scrutiny Committee to be consulted</b>	<b>Date of expected decision by Executive Board</b>
<b>SCHOOL UPDATE REPORT- COVID 19, SCHOOLS CAUSING CONCERN AND FINANCE</b>	<b>Gareth Morgans – Director of Education and Children</b>	<b>Education &amp; Children</b>	<b>N/A</b>	
<b>LA EDUCATION SERVICES SELF EVALUATION</b>	<b>Aneirin Thomas – Head of Education and Inclusion</b>	<b>Education &amp; Children</b>	<b>tbc</b>	<b>To be confirmed</b>
<b>UPDATE ON NEW CURRICULUM DEVELOPMENTS</b>	<b>Aeron Rees – Head of Curriculum and Wellbeing</b>	<b>Education &amp; Children</b>	<b>tbc</b>	<b>To be confirmed</b>
<b>POST 16 EDUCATION</b>	<b>Aeron Rees – Head of Curriculum and Wellbeing</b>	<b>Education &amp; Children</b>	<b>tbc</b>	<b>TBC</b>
<b>RESULTS OF 2020 EXAMINATIONS</b>	<b>Aneirin Thomas – Head of Education and Inclusion</b>	<b>Education &amp; Children</b>	<b>N/A</b>	<b>TBC</b>
<b>PROPOSAL TO DISCONTINUE YSGOL GYNRADD BLAENAU AND TO INCREASE THE CAPACITY AND CHANGE THE NATURE OF PROVISION AT YSGOL GYNRADD LLANDYBIE (STAGE 1, 2 AND 3)</b>	<b>Simon Davies – Head of Access to Education</b>	<b>Education &amp; Children</b>	<b>YES</b>	<b>21/12/20 (Stage 1) 10/05/21 (Stage 2) 05/07/21 (Stage 3)</b>
<b>ALN TRANSFORMATION ACTION PLAN</b>	<b>Aneirin Thomas – Head of Education and Inclusion</b>	<b>Education &amp; Children</b>	<b>28/01/20</b>	<b>tbc</b>
<b>CHILDREN’S SERVICES PAPER- TBC</b>	<b>Stefan Smith - Head of Children’s Services</b>	<b>Education &amp; Children</b>	<b>N/A</b>	<b>tbc</b>
<b>CARMARTHENSHIRE 10 YEAR STRATEGY FOR EDUCATION</b>	<b>Gareth Morgans – Director of Education and Children</b>	<b>Education &amp; Children</b>	<b>23/11/20</b>	<b>October 2020</b>
<b>PROPOSAL TO RELOCATE YSGOL HEOL GOFFA AND TO INCREASE ITS CAPACITY (STAGE 2 AND 3)</b>	<b>Simon Davies – Head of Access to Education</b>	<b>Education &amp; Children</b>	<b>YES)</b>	<b>21<sup>st</sup> December</b>
<b>PROPOSAL TO DISCONTINUE YSGOL RHYDYGORS (STAGE 1, 2 AND 3)</b>	<b>Simon Davies – Head of Access to Education</b>	<b>Education &amp; Children</b>	<b>YES</b>	<b>21/12/20 (Stage 1) 10/05/21 (Stage 2) 05/07/21 (Stage 3)</b>
<b>PROPOSAL TO CHANGE THE AGE RANGE AT YSGOL SWISS VALLEY (TBC) (STAGE 1, 2 AND 3)</b>	<b>Simon Davies – Head of Access to Education</b>	<b>Education &amp; Children</b>	<b>YES</b>	<b>21/12/20 (Stage 1) 10/05/21 (Stage 2) 05/07/21 (Stage 3)</b>
<b>PROPOSAL TO DISCONTINUE YSGOL GYNRADD MYNYDD Y GARREG (STAGE 1, 2 AND 3)</b>	<b>Simon Davies – Head of Access to Education</b>	<b>Education &amp; Children</b>	<b>YES</b>	<b>21/12/20 (Stage 1) 10/05/21 (Stage 2) 05/07/21 (Stage 3)</b>

**DYDD IAU, 28AIN IONAWR, 2021**

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd D. Price [Cadeirydd]

**Y Cyngorwyr:**

A S.M. Allen (yn lle T.A.J. Davies), L. Bowen, K.V. Broom, J.P. Jenkins, B.W. Jones, D. Jones, G.R. Jones, M.J.A. Lewis, E.M.J.G. Schiavone, B. Thomas, E.G. Thomas a D.T. Williams

**Aelodau Cyfetholedig:**

A. Enoch - Rhiant-lywodraethwr  
V. Kenny - Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig  
Y Parch. D. Richards - Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cyngorydd G. Davies - Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg & Phlant  
Y Cyngorydd D.M. Jenkins – Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

S. Davies - Pennaeth Mynediad i Addysg  
R. Hemingway - Pennaeth Gwasanaethau Ariannol  
A. Rees - Pennaeth Cwricwlwm a Lles  
A. Thomas - Pennaeth Gwasanaethau Addysg & Chynhwysiant  
E. Forsyth - Prif Ymgynghorydd Cymorth Addysgol  
S. Griffiths - Rheolwr Tîm Moderneiddio  
R. Williams - Rheolwr Darpariaeth Anghenion Ychwanegol  
S. Nolan - Cyfrifydd Grŵp  
C. Griffiths – Gweithiwr Ieuenctid Arweiniol Ysgol  
M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
E. Bryer - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
R. Lloyd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
S. Rees – Cyfieithydd ar y Pryd  
J. Corner – Swyddog Technegol

**Rhith-Gyfarfod : 10.00 yb - 1.20 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr T.A.J. Davies ac S. Najmi.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor nad oedd Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw oherwydd salwch ac ar ran y Pwyllgor, dymunodd wellhad buan i Mr Morgans.

**2. DATGAN BUDDIANAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIP A NODWYD MEWN PERTHYNAS AG UNRHYW EITEM AR YR AGENDA**

Cafwyd y datganiadau canlynol o fuddiant personol:-

Aelod	Rhif y Cofnod(ion)	Y Math o Fuddiant
Cyng B. Thomas	7 – Cynnig i Newid Natur y Ddarpariaeth yn Ysgol y Felin	Mae'n Llywodraethwyr yn Ysgol y Felin a benodir gan yr AALI
Mr A. Enoch	6 – Cynnig i Newid Natur y Ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr Model	Mae'n Rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr Model
Y Parch D. Richards	6 – Cynnig i Newid Natur y Ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr Model	Mae hi'n Rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr Model a benodir gan yr Eglwys yng Nghymru

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwipiaid y pleidiau.

### 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

### 4. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2021/22-2023/24

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor 2021/22 i 2023/24 a oedd yn rhoi golwg gyfredol ar y gyllideb refeniw ar gyfer 2021/2022 ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/2021 a 2023/2024. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar ragamcanion ynghylch gofynion gwariant y swyddogion, gan ystyried y setliad amodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 22 Rhagfyr 2020. Roedd hefyd yn adlewyrchu cyflwyniadau adrannol cyfredol ar gyfer cynigion am arbedion ar ôl ystyried effaith pandemig Covid-19 ar gyflawni'r arbedion hynny.

Er bod llawer o waith eisoes wedi'i wneud wrth baratoi'r gyllideb, nodwyd mai datganiad sefyllfa cychwynnol oedd yr adroddiad hwn a fyddai'n cael ei ddiweddarau dros y mis i ddod wrth i'r gyllideb gael ei datblygu ymhellach, ymgysylltu ag aelodau'r cyngor a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd y setliad terfynol i fod i gael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar 2 Mawrth 2021.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod Covid-19 wedi arwain nid yn unig at gostau ychwanegol na welwyd eu tebyg o'r blaen ond hefyd at ostyngiad mewn incwm pwysig, yn enwedig yn ystod cyfyngiadau symud. Rhagwelwyd y byddai'r cyfuniad o wariant ychwanegol a cholli incwm yn cael effaith o £30 miliwn ar gyllidebau Sir Gaerfyrddin ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Mae awdurdodau wedi cyflwyno hawliadau misol, sydd wedi'u hasesu ac i raddau helaeth iawn, wedi'u had-dalu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Gan edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, nid yw cyllid parhaus Llywodraeth Cymru fel hyn wedi'i ymrwymo ar hyn o bryd, yn bennaf

gan nad oes gan Lywodraeth Cymru ei hun gyllid wedi'i gadarnhau eto o ganlyniad i wariant San Steffan sy'n gysylltiedig â Covid-19.

Nododd yr adroddiad y prif resymau dros orwariant adrannol y Gwasanaethau Addysg a Phlant a oedd yn deillio'n bennaf o'r cynnydd a ragwelir mewn balansau diffyg mewn ysgolion.

Er bod y Strategaeth yn cynnig cynnydd o 4.89% yn y Dreth Gyngor ar gyfer pob un o'r tair blynedd ariannol, roedd y Bwrdd Gweithredol wedi argymhell y dylid lleihau'r cynnydd ar gyfer 2021/22 i 4.48%. Byddai'r Cyngor yn ystyried yr argymhelliad hwn yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2021 wrth bennu lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22. Yn ogystal, byddai ffigur setliad terfynol Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi ar 2 Mawrth 2021 a byddai unrhyw ddiwygiadau y mae'n ofynnol eu hystyried mewn perthynas â Strategaeth y Gyllideb sy'n deillio o'r cyhoeddiad hwnnw hefyd yn cael eu hystyried gan y Cyngor ar 3 Mawrth.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth ac a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl:-

- **Atodiad A(i)** – Crynodeb o'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant
- **Atodiad A(ii)** – Crynodeb o Bwysau Twf ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant
- **Atodiad B** – Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant
- **Atodiad C** – Crynhoad Taliadau ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant

Er bod cynigion y gyllideb yn rhagdybio y byddai'r holl gynigion arbedion yn cael eu cyflawni'n llawn, ynghyd â nodi a chyflawni'r diffyg mewn cynigion arbedion ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/24, byddai angen nodi gostyngiadau pellach mewn costau ar gyfer y blynyddoedd olaf hynny er mwyn cynnal Strategaeth y Gyllideb bresennol a lefel y Dreth Gyngor. Cyfanswm yr arbedion a nodwyd ym mlynnyddoedd 2 a 3 y Strategaeth oedd £1.96 miliwn a byddai adrannau'n gweithio dros y flwyddyn i ddod i nodi'r arbedion hynny.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod y gorwariant adrannol yn deillio'n bennaf o'r cynnydd a ragwelir mewn balansau diffyg mewn ysgolion a gofynnwyd i'r swyddogion a ddylai'r Awdurdod gwestiynu'r patrwm o ddosbarthu arian i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith bod y Pwyllgor eisoes wedi gofyn am ddadansoddiad o'r fformiwla a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dyrannu arian ledled Cymru;
- Tynnwyd sylw at y ffaith mai llywodraethwyr sy'n gyfrifol am atebolrwydd ariannol. Gall nifer y disgyblion leihau mewn unrhyw ysgol am amrywiaeth o resymau a gofynnwyd i swyddogion pa mor bendant yw Cyrff Llywodraethu pan fydd angen penderfyniadau ariannol cyflym i ddileu anghydbwysedd cynyddol. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor fod swyddogion yn gwbl ymwybodol o'r heriau ariannol yn ein hysgolion. Mae'r swyddogion yn cyfarfod â Phenaeithaid a Chyrff Llywodraethu i drafod eu sefyllfa ariannol.

Ychwanegodd bod rhesymau lleol i'w hystyried hefyd ac mae angen mwy o gymorth ar rai ysgolion nag eraill i fynd i'r afael â'r problemau;

- Cyfeiriwyd at y ffaith y byddai'n helpu siroedd fel Sir Gaerfyrddin gyda nifer uchel o ysgolion gwledig bach pe bai'r fformiwla ariannu yn deg. Gofynnwyd i'r swyddogion beth sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r dybiaeth yn erbyn cau a pha drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â newid y fformiwla a phe bai hyn yn cael ei wneud, a fyddai hyn yn tynnu'r pwysau oddi ar ein hysgolion llai. Eglurodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant fod y cyllid yn cael ei ddyrannu i'r disgybl felly wrth i nifer y disgyblion ostwng, bydd y cyllid a ddyrennir i'r ysgol hefyd yn gostwng. Mae swyddogion o'r Adran Cyllid ac Addysg yn gweithio'n galed gydag ysgolion i fynd i'r afael â'r problemau y maent yn eu profi;
- Pan ofynnwyd faint o ysgolion sydd â diffyg mewn balans, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod diffyg gan 44 o 112 o ysgolion;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod angen i ni roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ddyrannu mwy o arian i'n hysgolion yn enwedig gyda'r cwricwlwm newydd. Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant at y ffaith bod tybiaeth yn erbyn cau, ond mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid fesul disgybl ac nid fesul ysgol sy'n creu problemau i'r Awdurdod. Cyflwynir sylwadau i Lywodraeth Cymru gan y Cyfarwyddwr drwy Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg. Ystyrir bod unrhyw ysgol sydd â llai na 92 o ddisgyblion yn ysgol fach felly mae'n rhaid i unrhyw gyllid ysgol fach gael ei ledaenu ymysg cynifer o ysgolion sy'n perthyn i'r categori hwn fel ei fod yn swm bach iawn o gyllid yn y pen draw;
- Gofynnwyd i'r swyddogion a yw canlyniad y trafodaethau rhwng yr undebau a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r codiad cyflog o 2.75% yn hysbys a beth fydd yr effaith. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at y ffaith bod hyn wedi achosi llawer o ansicrwydd oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r codiad cyflog, ond bydd yn rhaid i'r Awdurdod Lleol dalu'r cost am hyn. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod digon o arian yn y gyllideb ddrafft i ddilysu'r gost hon ar gyfer taliad cyflog mis Medi 2020;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod disgyblion wedi colli blwyddyn o addysg a gofynnwyd i'r swyddogion a oedd cydnabyddiaeth ar lefel y llywodraeth bod angen rhyw fath o hwb ariannol i fynd i'r afael â hynny er mwyn sicrhau bod disgyblion yn ôl i'r lefel ofynnol. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant fod hyn yn bryder enfawr a chytunodd y dylid cael arian ychwanegol i alluogi mynd i'r afael â'r mater hwn, ond nid oedd yn ymwybodol o unrhyw ddarpariaeth o'r fath. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod cyhoeddiad wedi'i wneud y diwrnod cynt ynghylch oddeutu £65m ychwanegol i gefnogi ysgolion, ond nid oedd yn hysbys eto sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cyllid hwnnw. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant fod grantiau ychwanegol y Rhaglen Dysgu Carlam ar gael i ddisgyblion ysgolion uwchradd mewn blynyddoedd arholiad. Fodd bynnag, roedd her o ran pa mor hwyr y caiff yr arian hwn ei dderbyn gan ein hysgolion gyda rhai grantiau'n cael eu derbyn yr wythnos diwethaf y mae'n rhaid eu gwario'n llwyr erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nad yw'n caniatáu unrhyw amser i benaethiaid flaengynllunio. Mae swyddogion wedi mynd yn ôl at Lywodraeth Cymru i'w hannog i ystyried hyn a rhoi digon o amser i benaethiaid wneud defnydd doeth o'r arian ychwanegol hwn;

- Mynegwyd pryder ynglŷn â chyllid grant yn dod i mewn yn hwyr iawn ac yn aml yn cael ei dynnu'n ôl yn gyfan gwbl sy'n ei gwneud yn anodd i ysgolion gyllidebu. Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ei fod yn rhwystredig iawn i benaethiaid ac mae rhai o'r telerau ac amodau hefyd yn ei gwneud yn anoddach. Ychwanegodd Cyfrifydd y Grŵp fod hyn yn rhywbeth y mae swyddogion yn ei godi'n gyson gyda Llywodraeth Cymru. Cytunodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau fod y sail ar gyfer y fformiwla cyllido yn ddiffygiol gan nad yw'n cydnabod materion gwledig a gofynnodd a oes gan awdurdodau trefol mawr yr un problemau gyda chyllidebau a ddirprwyir. Os na, mae'n amlwg bod problemau gyda'r cyllid fformiwla y byddai angen eu codi gyda Llywodraeth Cymru. Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod Swyddogion Cyllid wedi cytuno i ymchwilio i'r mater hwn yn y cyfarfod diwethaf;
- Gofynnwyd i'r swyddogion a oedd cyllid ar gael i Lywodraeth Cymru ddarparu offer TG i deuluoedd agored i niwed gan fod gwir angen sicrhau yr eir i'r afael â'u gofynion TG er mwyn sicrhau bod pob plentyn ym mhob teulu yn cael yr un cyfleoedd. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant fod dros 2000 o liniaduron a dongles wedi'u dosbarthu i deuluoedd ledled y sir hyd yn hyn;
- O ran y Gwasanaethau Addysg a Seicoleg Plant, gofynnwyd i'r swyddogion a oedd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu o bell ac a oedd hynny wedi cynyddu nifer y bobl a all fanteisio arno. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor fod y gwasanaeth wedi parhau yn ystod y pandemig gyda'r holl wasanaethau'n cael eu darparu o bell a bod hygyrchedd i ddarparwyr allanol fel therapyddion hefyd wedi parhau. Ychwanegodd ein bod, mewn llawer o achosion mewn gwasanaethau ar draws yr adran, yn ymateb yn gyflymach ac yn fwy effeithiol oherwydd ein bod yn gweithio o bell ac yn gallu cysylltu â rhieni'n gyflymach gan eu bod bellach yn fwy cyfarwydd â defnyddio'r dechnoleg sydd ar gael iddynt. Nid oedd gweithio o bell yn niweidiol ym mhob sefyllfa.

## **PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL**

- 4.1 bod Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2021/22-2023/24 yn cael ei derbyn;**
- 4.2 cymeradwyo'r Crynhoad Taliadau ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant, fel y nodwyd yn Atodiad C i'r adroddiad.**

## **5. GWERTHUSIAD O SUT YR YMATEBODD ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT SIR GAERFYRDDIN I COVID-19**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o sut y mae'r Awdurdod Lleol a'r rhanbarth wedi gweithio gydag ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion i hyrwyddo dysgu a chefnogi disgyblion sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod COVID-19 rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2020 h.y. y cyfnod ar ôl y cyfyngiadau symud cychwynnol wrth i ysgolion ailagor.

Bu'n rhaid i swyddogion yn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant addasu'n sylweddol y ffordd y maent yn gweithio'n draddodiadol er mwyn canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi ysgolion a gwasanaethau fel bod y plant a'r bobl ifanc yn ein gofal yn gallu cael mynediad at yr holl gymorth ac ymyriadau yr oedd eu hangen arnynt. Roedd yn gyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen ac roedd yn rhaid i'r

Cyfarwyddwr, y Tîm Rheoli Adrannol a'r Rheolwyr Gwasanaeth wneud penderfyniadau yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd ar gael bryd hynny.

Yn ystod tymor yr Hydref 2020 cynhaliodd ESTYN arolwg thematig i fyfyrion ar ymagwedd Awdurdodau Lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion tuag at addysgu, dysgu a llesiant disgyblion. Byddai'r adolygiad yn rhoi adroddiad i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol unigol a chonsortia rhanbarthol sy'n adlewyrchu eu gwaith a'u dulliau gweithredu yn ystod y cyfyngiadau symud ac ar ddechrau'r cyfnod pan oedd ysgolion yn dechrau gweithredu'n llawn unwaith eto. Bydd yr adroddiadau'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddeall y cryfderau a'r gwersi eang a ddysgwyd yn y ffordd yr oedd Awdurdodau Lleol a rhanbarthau'n gweithredu yn ystod y cyfnod hwn. Byddai hefyd yn nodi sut y defnyddiwyd y gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod cyn yr haf i gefnogi'r gwaith o gynllunio ar gyfer dulliau dysgu cyfunol a chymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed yn ystod tymor yr Hydref. Byddai hyn hefyd yn galluogi dysgu gwersi o'r arferion mwyaf effeithiol mewn perthynas â chapasiti, cydweithredu, cynllunio ar gyfer y dyfodol a rheoli newid a fydd yn cefnogi diwygiadau arfaethedig ym maes addysg a llywodraeth leol dros y blynyddoedd nesaf.

Roedd canfyddiadau'r adroddiadau hyn yn gadarnhaol, gan fyfyrion ar waith partneriaeth effeithiol rhwng pawb sy'n ymwneud â'r system addysg. Fodd bynnag, roedd angen ystyried rhai meysydd ymhellach a byddent yn cael eu cynnwys yn y Cynllunio Busnes Adrannol ar gyfer 2021/22.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r ysgolion hynny sy'n cael eu monitro gan Estyn a gofynnwyd i'r swyddogion a ddylid gohirio hyn nes bod ysgolion ar agor fel arfer eto. Dywedodd y Prif Ymgynghorydd Cymorth Addysgol wrth y Pwyllgor fod amrywiaeth o arferion gan Estyn yn hyn o beth ac maent hefyd yn cynnal galwadau bugeiliol ag ysgolion i sicrhau eu bod yn gwneud y cynnydd gyda'u plant a'u staff yn ôl yr angen. Ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadolygu gan Estyn, cynhelir cyfarfod yr wythnos nesaf pan fydd cynnydd ysgolion yn cael ei drafod felly bydd cynnydd yn cael ei drafod gan swyddogion yn hytrach na rhoi pwysau ar ysgolion i lunio adroddiadau. Cafwyd adborth cadarnhaol mewn perthynas â'r galwadau bugeiliol sy'n cael eu cynnal gan Estyn;
- Gofynnwyd i'r swyddogion sut yr oedd ERW yn cynorthwyo'r sir yn ystod y pandemig. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor fod ERW wedi bod yn darparu cymorth o ran dysgu o bell. Mae wedi darparu cyrsiau ar-lein i staff addysgu ac mae wedi creu polisiau diogelu. Ychwanegodd Rheolwr y Ddarpariaeth Anghenion Ychwanegol fod Grŵp ADY Rhanbarthol ERW wedi datblygu nifer o fodiwlau hyfforddi pwrpasol mewn perthynas â dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae ERW wedi helpu i ddarparu pecynnau hyfforddi electronig i gefnogi athrawon, ysgolion, teuluoedd a disgyblion sydd wedi'u rhannu ar draws y rhanbarth. Ychwanegodd y Prif Ymgynghorydd Cymorth Addysgol fod ERW wedi gweithio gydag ysgolion mewn perthynas â datblygu adnoddau llesiant i sicrhau llesiant staff a disgyblion. Cafwyd adborth cadarnhaol gan benaethiaid yn hyn o beth;
- Gofynnwyd i'r swyddogion sut yr ydym yn diffinio dysgwyr sy'n agored i niwed ac a ydynt yn hyderus bod hynny'n cael ei gymhwysu'n gyson ledled y sir. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor ei bod yn hanfodol nodi plant a theuluoedd sy'n agored i niwed



yn gynnar iawn. Roedd pob un ohonynt wedi'u nodi ac roedd swyddogion yn sicrhau bod llygad barcud yn cael ei gadw arnynt. Gweithredwyd strategaeth ar gyfer dysgwyr agored i niwed a oedd yn cynnwys cysylltu â theuluoedd agored i niwed bob wythnos a hefyd sicrhau y siaradwyd â'r disgybl. Eglurodd Rheolwr y Ddarpariaeth Anghenion Ychwanegol fod yr Awdurdod yn defnyddio diffiniad Llywodraeth Cymru o ddysgwr sy'n agored i niwed a bod hyn wedi'i ddefnyddio drwy gydol y pandemig. Er bod diffiniad Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio, roedd hefyd yn cynnwys y plant hynny a ddaeth yn agored i niwed o ganlyniad i'r pandemig. Ychwanegodd y Prif Ymgynghorydd Cymorth Addysg fod Ymgynghorwyr Cymorth wedi bod yn gweithio'n agos gydag ysgolion ac yn ymgysylltu'n rheolaidd â disgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant at y ffaith bod llawer o swyddogion wedi mynd yr ail filltir i ddarparu gwasanaethau yn ystod y pandemig a diolchodd i'r holl swyddogion hynny;

- Gofynnwyd i'r swyddogion pa gynlluniau adrannol sydd ar waith i helpu ysgolion i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Eglurodd Pennaeth y Cwricwlwm a Llesiant fod swyddogion yn gweithio ar wahanol fentrau. Mae rhai ysgolion eisoes yn gweithredu elfennau o'r cwricwlwm newydd i helpu gyda heriau presennol e.e. llythrennedd, rhifedd a chapasiti digidol;
- Gofynnwyd i'r swyddogion am y wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu offer TG i ddysgwyr agored i niwed a gofynnwyd iddynt a ydynt yn hyderus bod pob ysgol wedi bod yn rhagweithiol wrth gefnogi eu disgyblion agored i niwed. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor fod dros 4000 o Chromebooks, 1400 o gymhorthion addysgu, 564 o gyfrifiaduron, 634 o liniaduron wedi'u dosbarthu, yn ogystal â nifer sylweddol o dongles. Disgwylir stoc ychwanegol hefyd. Ychwanegodd Pennaeth y Cwricwlwm a Llesiant fod offer TG wedi'i ddosbarthu mewn tair cyfran a bod pedwaredd cyfran yn cael ei chynllunio ar hyn o bryd;
- Gofynnwyd i'r swyddogion pa fesurau sydd ar waith i helpu athrawon gyda'u hiechyd a'u llesiant dros y misoedd nesaf. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant sicrhad i'r Pwyllgor fod llesiant athrawon a phenaethiaid yn flaenoriaeth nid yn unig oherwydd y pwysau gwaith ychwanegol ond hefyd oherwydd eu pryderon ynglŷn â'u hiechyd eu hunain a dychwelyd i'r ysgol yn ystod y pandemig. Mae'r Tîm Gwella Ysgolion yn ymwybodol o bwysigrwydd lleihau'r straen ar benaethiaid felly mae'r wybodaeth y gofynnir amdani wedi'i lleihau'n sylweddol. Mae sesiynau galw heibio hefyd wedi'u trefnu i unrhyw staff addysgu rannu eu pryderon. Un newid allweddol sydd wedi'i wneud yw newid enw Ymgynghorwyr Her i Ymgynghorwyr Cymorth Addysgol gan ei fod yn gosod y sail ar gyfer y berthynas gan eu bod yno i gefnogi, nid i herio.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

### **6. RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNIG I NEWID NATUR Y DDARPARIAETH YN YSGOL GYNRADD WIRFODDOL A GYNORTHWYIR Y MODEL.**

[NODER: Gan fod Mr A. Enoch a'r Parch D. Richards wedi datgan buddiant rhagfarnol yn y mater hwn yn gynharach, bu iddynt adael y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar gynnyg i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr y Model.

Yn unol â Chynlluniau Strategol Llywodraeth Cymru, lansiodd yr Awdurdod Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a'i weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddwyieithog. Er mwyn cyflawni hyn bydd yr Awdurdod yn sicrhau twf sylweddol mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ac sydd â'r gallu i ddefnyddio'r ieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Gan gofio hyn, mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i ddarparu'r addysg a'r cyfleoedd gorau posibl i'w gymunedau ac mae'n credu y gellir cyflawni hyn drwy amcanion penodol. Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gwbl gefnogol i'r nod bod yr holl ddisgyblion yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 a bydd yn darparu gwasanaethau a fydd yn sicrhau cyfleoedd dysgu o ansawdd da ar gyfer holl blant, pobl ifanc ac oedolion Sir Gaerfyrddin, a thrwy hynny'n eu galluogi i wireddu eu llawn potensial fel dysgwyr gydol oes yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r Sir.

Er mwyn cefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a pholisïau cenedlaethol o ran symud ysgolion y sir ar hyd continwmm y Gymraeg, cynygir nodi natur y ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr y Model. Cynigir y bydd natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg o 1 Medi 2022. Bydd hyn ond yn effeithio ar ddisgyblion sy'n dechrau yn y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol o fis Medi 2022 ymlaen. Ni fydd yn effeithio ar ddisgyblion presennol sy'n mynychu'r ysgol.

Oherwydd y bydd dysgwyr yn cael addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, gydag amser byddai hyn yn golygu y bydd angen sefydlu Ffrwd Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau. Byddai hyn yn cael ei adolygu yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Pwysleisiwyd pwysigrwydd mynd â phobl gyda ni os ydym am i'r continwmm iaith weithio a gofynnwyd i'r swyddogion a oedd modd ymestyn y cyfnod ymgynghori yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd. Eglurodd y Pennaeth Mynediad i Addysg nad oedd yn bosibl ymgynghori heb gymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol a cheisiodd yr adroddiad hwn gymeradwyaeth y Pwyllgor i argymhell i'r Bwrdd Gweithredol y dylid dechrau ar broses ymgynghori ffurfiol;
- Cyfeiriwyd at yr angen i ymgynghori â rhieni a'u cynnwys yn gynnar yn y broses;
- O ran y rhieni hynny y bydd unrhyw newidiadau yn y ddarpariaeth yn effeithio arnynt gyntaf, gofynnwyd i'r swyddogion a fyddai modd cysylltu â rhieni plant sy'n mynychu meithrinfeydd lle mae plant yn symud ymlaen i'r ysgol dan sylw.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

- 6.1 bod y cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr y Model, fel y manylir arno yn yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo;
- 6.2 argymhell i'r Bwrdd Gweithredol y dylid dechrau ar broses ymgynghori ffurfiol.

[SYLWER: Am 12.55 yp, cyn ystyried yr eitem nesaf, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor - Hyd y cyfarfod - ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers bron tair awr, **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ohirio ystyried y rheolau sefydlog er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.]

## 7. RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNNIG I NEWID NATUR Y DDARPARIAETH YN YSGOL Y FELIN

[NODER: Roedd y Cynghorydd B. Thomas wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol y Felin.

Yn unol â Chynlluniau Strategol Llywodraeth Cymru, lansiodd yr Awdurdod Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a'i weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddwyieithog. Er mwyn cyflawni hyn bydd yr Awdurdod yn sicrhau twf sylweddol mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ac sydd â'r gallu i ddefnyddio'r ieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Gan gofio hyn, mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i ddarparu'r addysg a'r cyfleoedd gorau posibl i'w gymunedau ac mae'n credu y gellir cyflawni hyn drwy amcanion penodol. Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gwbl gefnogol i'r nod bod yr holl ddisgyblion yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 a bydd yn darparu gwasanaethau a fydd yn sicrhau cyfleoedd dysgu o ansawdd da ar gyfer holl blant, pobl ifanc ac oedolion Sir Gaerfyrddin, a thrwy hynny'n eu galluogi i wireddu eu llawn botensial fel dysgwyr gydol oes yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r Sir.

Er mwyn cefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a pholisïau cenedlaethol o ran symud ysgolion y sir ar hyd continwwm y Gymraeg, cynigir newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol y Felin. Cynigir y bydd natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg o 1 Medi 2022. Bydd hyn ond yn effeithio ar ddisgyblion sy'n dechrau yn y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol o fis Medi 2022 ymlaen. Ni fydd yn effeithio ar ddisgyblion presennol sy'n mynychu'r ysgol.

Wrth i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen bydd yn rhaid monitro ac adolygu gallu'r ffrwd Gymraeg yn CA2 i ymdopi â'r galw cynyddol posibl am leoedd yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.

## PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

- 7.1 bod y cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol y Felin, fel y manylir arno yn yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo;
- 7.2 argymhell i'r Bwrdd Gweithredol y dylid dechrau ar broses ymgynghori ffurfiol.

## 8. ADRODDIAD TERFYNOL Y GRŴP GORCHWYL A GORFFEN - FFORMIWLA CYLLIDO ADY

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb terfynol o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i gynnal adolygiad o'r model cyllido Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn ysgolion. Mae'r cymorth ariannol ar gyfer ADY wedi profi llawer o bwysau a straen ers peth amser oherwydd y galw cynyddol ar y lefel bresennol o adnoddau sydd ar gael. Roedd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o'r newidiadau allweddol sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn a fydd yn arwain at ffordd newydd o ddarparu cymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Sefydlwyd yr adolygiad Gorchwyl a Gorffen i archwilio'r fformiwla cyllido bresennol ac i ystyried modelau amgen posibl i fodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae'r Ddeddf yn pwysleisio'r angen am broses integredig, gydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol. Roedd yr angen sylfaenol am fodel cyllido mwy ymatebol yn ystyriaeth allweddol.

Manylwyd ar nodau ac amcanion allweddol yr adolygiad mewn dogfen gynllunio a chwmpasu a gymeradwywyd yn y cyfarfod ar 4 Gorffennaf 2019 pan benderfynwyd sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ynghyd â'r aelodaeth.

Fel rhan o'i ystyriaethau, ystyriodd y grŵp ystod eang o wybodaeth ar ffurf adroddiadau ysgrifenedig a llafar a oedd yn cynnwys modelau cyllido presennol a pharmedrau newydd posibl ar gyfer cyllido. Nododd y grŵp fod angen dirprwyo mwy o adnoddau ADY i ategu'r canlynol:-

- cryfhau darpariaeth gyffredinol a darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer plant ag ADY;
- cefnogi ysgolion i sefydlu ymyrraeth gynnar a dulliau gweithredu fesul cam mewn modd amserol;
- galluogi ysgolion i gyflawni eu dyletswyddau statudol i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â Darpariaeth Dysgu Ychwanegol;
- meithrin hyder rhieni/gofalwyr y gellir diwallu anghenion yn brydlon heb broses neu anghydfod diangen;
- sicrhau adnoddau'n brydlon ar gyfer disgyblion sy'n destun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy;
- lleihau'r gofyniad am brosesau asesu a datganiadau statudol i gyfeirio cyllid ar gyfer disgyblion ADY â nifer fach o achosion o angen mawr;
- cronfa ganolog ar gyfer anghenion meddygol cymhleth;
- rhoi hyblygrwydd ariannol i ysgolion, galluogi ysgolion i gael gafael ar gymorth allanol amserol i blant, sicrhau bod gan ysgolion yr hyblygrwydd i ddiwallu anghenion plant, a chynnwys ysgolion yn well mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag ADY.

Roedd y Grŵp yn ystyried model cyllido dirprwyedig presennol y Cyngor. I'r rhan fwyaf o blant mewn ysgolion prif ffrwd, gan gynnwys y rhai ag ADY ac anabledau, dyrennir cyllid iddynt drwy gyllideb yr ysgol ac fe'i gelwir yn gyllid fesul disgybl. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi'r holl ddysgu ac fe'i defnyddir ar gyfer cyflogau staff, gan gynnwys y Cydlynwyr ADY, cyfleusterau ac adnoddau ADY. Dylid gwario canran o gyfanswm y cyllid fesul disgybl a dderbynnir gan ysgol ar ddarparu ar gyfer disgyblion ag ADY. Yn Sir Gaerfyrddin, disgwylir i ysgolion ddyrannu o leiaf 5% o'u cyllid fesul disgybl i'w cyllideb ADY.

Ystyriodd cyfres o weithdai gyda phenaethiaid amrywiol fodolau cyllido. Cytunwyd yn ystod y gweithdai hyn bod angen i unrhyw fecanwaith cyllido fformiwla newydd gefnogi Trawsnewid ADY a fydd yn diwygio'r ffordd y caiff plant ag ADY eu nodi, eu hasesu a'u cefnogi. Bydd categorïau blaenorol o ADY - gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy a datganiadau yn dod i ben, a bydd yn ofynnol i ysgolion wneud Darpariaeth Dysgu Ychwanegol statudol drwy Gynlluniau Datblygu Unigol.

Yn dilyn mewnbwn gan y grŵp gorchwyl a gorffen cytunodd yr ALI mewn ymgynghoriad â phenaethiaid i'r egwyddorion cyllido canlynol:-

- £1,000 ar gyfer pob disgybl sy'n derbyn gofal
- Gweddill wedi'i rannu'n 25% i brydau ysgol am ddim, 25% i weithredu gan yr ysgol, 50% i weithredu gan yr ysgol a mwy

Gyda'r bwriad, wrth i ddatganiadau leihau, y bydd cyllid yn trosglwyddo i'r atodiad ADY er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion o ran diwallu anghenion disgyblion ag ADY.

Mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid, ystyriodd y fformiwla amrywiaeth o ddangosyddion dirprwyol a oedd yn adlewyrchu natur gyd-destunol ysgolion:-

- Amddifadedd cymdeithasol
- Nifer y disgyblion
- Prydau Ysgol am ddim
- Plant sy'n Derbyn Gofal

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**8.1 nodi casgliad adolygiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyllido Fformiwla ADY;**

**8.2 bod adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ADY yn cael ei gymeradwyo;**

## **9. EGLURHAD YNGHYLCH PEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU**

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol:-

- Cynnig i adleoli Ysgol Dewi Sant
- Strategaeth Gorfforaethol
- Cynlluniau Busnes Adrannol

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r wybodaeth.**

**10. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r wybodaeth.**

**11. LLOFNODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 6 IONAWR 2021 YN GOFNOD CYWIR**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2021 yn gofnod cywir.**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**